

## MILLS, HENRY (1757-1820), arloeswr gyda chanu cynulleidfaol yng Nghymru

**Enw:** Henry Mills  
**Dyddiad geni:** 1757  
**Dyddiad marw:** 1820  
**Priod:** Jane Mills  
**Plentyn:** Richard Mills  
**Plentyn:** James Mills  
**Plentyn:** Edward Mills  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** arloeswr gyda chanu cynulleidfaol yng Nghymru  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Cerddoriaeth  
**Awdur:** Gwilym Prichard Ambrose

Ganwyd yn 1757 yn amaethdy Tanrallt, gerllaw Llanidloes. Pan oedd yn ddyn ieuanc tynnodd ei lais sylw [Thomas Charles o'r Bala](#) pan oedd hwnnw ar ymweliad â Bethel, capel y Methodistiaid Calфинаidd, Llanidloes - ymunodd Mills â'r Methodistiaid Calфинаidd yn 1780 - ac ar awgrym [Charles](#) rhoes y cyfarfod misol ofal canu cynulleidfaol Methodistiaid yr ardal ar ysgwyddau Mills, serch fod newydd-deb y syniad, ieuencid Mills, a'i fod yn abl i ganu dau neu dri o offerynnau cerdd, yn rhwystr yng ngolwg rhai o'r blaenoriaid mwyaf llym a chul. Bu'n briod ddwywaith. Meibion o'i briodas gyntaf oedd (1) Edward Mills, tad [John Mills](#) ac [Edward Mills](#); (2) [James Mills](#). Mab o'r ail briodas oedd [Richard Mills](#). Bu HENRY MILLS farw 28 Awst 1820.

Parhawyd ei waith cerddorol gan ei fab JAMES MILLS (1790 - 1844); ganwyd yn 1790 ym Melin-y-wern, gerllaw Llanidloes. Cafodd ei alluoedd cerddorol ef gyfle da yn y gymdeithas gerddorol a sefydlwyd yn Bethel yn 1834 gyda'r amcan o wella safon caniaedaeth gynulleidfaol; cyfarfyddai'r gymdeithas ar y Suliau, ac yr oedd yn perthyn iddi hefyd ddsbarth-noson-waith lle y dysgid elfennau cerddoriaeth gan tua 60 neu 70 o bobl ieuanc. Cyfansoddodd JAMES MILLS lawer o anthemau a thonau - gweler *Y Cerddor Eglwysig a Caniadau Seion* - a chadwodd ei dôn a elwir ' Hosannah ' ei lle mewn casgliadau diweddarach. Bu farw yn y flwyddyn 1844.

### Awdur

Prifathro Gwilym Prichard Ambrose

### Ffynonellau

R. Mills and N. Cynhafal Jones, *Buchdraeth y Parch. John Mills. F.R.G.S., M.R.A.S ...* (Aberdâr 1881)

*Y Traethodydd*, 1901, 1903

M. O. Jones, *Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig* (1890)

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

*Y Cerddor*, Rhagfyr 1890

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733153](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

